YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1886. [RHIF 56.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

NEWTON A'I RAGREDEGWYR.*

"If I have ever seen further than other men, it has been by standing on the shoulders of giants."—*Sir Isaac Newton.*

PENNOD hir a dyfyr, a phe meddem y dawn a'r wybodaeth angenrheidiol, pennod ddyddorol ac adeiladol, fyddai y bennod a ddadlenai yn iawn hanes cynnydd gwybodaeth seryddol o'r adeg yr ysgrifenodd Job ei chwareugerdd fydenwog, ac y soniodd am "Yr Hwn sydd yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleiades, ac ystafelloedd y deheu;" ac o'r amser y dychymygodd Claudius Ptolemæus (C.C. 160) ei gyfundrefn, ac y gosododd y ddaear yn ganolbwynt y cyssawd heulawg, hyd yr amser y darganfyddwyd, yn ein dyddiau ni, y ffordd i gael allan beth yw defnyddiau cyfansawdd y bydoedd wybrenol, ac yr esponiwyd arddangosiad rhyfeddol y lluaws sêr sydd yn syrthio tua chanol mis Tachwedd. Ni ryfygir genym yn bresenol ddim mor uchelgeisiol; yn hytrach, ymfoddlonwn ar geisio rhoddi braslun bywgraffyddol o'r cewri ydynt wedi enwogi eu hunain yn benat ar faes swynol seryddiaeth.

Yr oedd Aristotl wedi ysgrifenu llyfr tua 300 mlynedd cyn Crist, yr hwn nid oedd neb, braidd, am 1700 mlynedd wedi beiddio ei amheu. Yr oedd amheu gosodiadau Aristotl yn wrthun yn ngolwg dynion, ac yn dwyn y cyhuddiad o heresi yn erbyn y sawl a'i gwnelai—yn debyg fel y gwneir gan rai heddyw pan yr amheuir fod y morfil wedi llyncu Jonah.

* "A Chapter of Science: or What is a Law of Nature?" Six Lectures to Working Men. By J. Stuart, M.A., Professor of Mechanics, Cambridge. London: Society for Promoting Christian Knowledge. 192 pp. Price 1s.

Yr oedd yspryd anffaeledigrwydd wedi ymgyssylltu â gwyddoniaeth, a bu yr yspryd yma yn rhwystr mawr i gynnydd gwybodaeth am ganrifoedd lawer. Yr oedd ambell i un, yn awr ac yn y man, yn credu tystiolaeth ei lygaid ei hun o'r ffeithiau a ddeuent yn rhan o'i brofiad ei hun. Y dychymyg oedd offeryn mawr darganfyddiad gan y lluaws, a llais awdurdod enwau mawrion. Yn 1596, yr oedd Kepler wedi cyhoeddi llyfr yn yr hwn y ceisiai osod allan paham nad oedd dim ond pump planed, a chyssylltai hyny, yn rhywfodd, â dychymyg arall nad oedd dim ond pump *regular solid* yn bossibl. Canmolodd Galileo ei gywreinrwydd, ond pan ddangoswyd y llyfr i Tycho Brahè, cynghorodd ef, yn gyntaf, "I osod sylfaen gadarn i'w olygiadau trwy sylwi ar y gwrthddrychau eu hunain, a thrwy esgyn oddiwrth y rhai hyn i geisio cyrhaedd at achosion pethau." Nid oes gan Bacon (1561—1626) yr un cynghor gwell yn ei *Novum Organum*, ac fe 'i ystyrir ef yn dad yr *experimental philosophers*. Llwybr ymofyniad, yn y dyddiau presenol, yw, (1) *Observation*, (2) *Theory*, (3) *Analysis*, (4) *Experiment;* ac yn y drefn yna, Sylw, Damcaniaeth, Dadansoddiaeth, Prawfiadaeth, mae y *scientific men*, gan mwyaf, wedi gosod o'r neilldu *easy chair philosophy* y dyddiau gynt, a cheisir y *why* a'r *because* ar gynllun arall.

Yr oedd sylwi ar y sêr yn waith hoff gan ddynion er yn foreu iawn, ac yr oedd yr Aifft a gwledydd Dwyreiniol ereill, o herwydd eu hawyrgylch glir, yn ffafriol i hyny. Yr oedd yn amlwg iddynt fod rhai o'r sêr yn symmud mewn ystyr nad oedd rhai ereill, a galwasant y rhai hyny yn blanedau, hyny yw, *crwydriaid*. Yr oedd rhif y rhai hyny, y rhai gweledig i'r llygad noeth, yn bump. Gelwir y sêr ereill yn *sefydlog*. Deil y rhai blaenaf berthynas agosach â ni nâ'r rhai olaf. Gwaith y cewri a fwriadwn sylwi arnynt oedd ceisio egluro natur, symmudiadau, pellder, llwybr, &c., y sêr. Fe wyddai Hipparchus (C.C. 160--125) fod pellder yr haul yn amrywio. Mae yn y man nesaf atom tua Ionawr yr 2il, ac yn graddol ymbellhau nes cyrhaedd y man pellaf Gorphenaf y 1af. Fe wyddys yn awr ei fod, nid yn unig yn ymddangos, ond ei fod yn symmud yn gyflymach yn y ganaf nâ'r haf. Gwyddom fod pellder y pum' planed yn amrywio o 25 miliwn i 2500 o filiynau o filldiroedd, tra y mae y nesaf o'r sêr sefydlog yn sicr o fod yn 200 mil o weithiau yn mhellach nag yw'r haul.

Nicholas Copernic

a anwyd yn Thorn, yn Prwssia, yn 1473, a bu farw yn 1543. Offeiriad Pabaidd oedd. Teithiodd lawer yn ei ddydd, gan ymweled â phrif seryddwyr ei oes. Cafodd y gwahanol systemau seryddol sylw manwl ganddo, a daeth i'r penderfyniad fod yr holl blanedau yn treiglo oddiamgylch i'r haul mewn cyfeiriad o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Myn rhai mai efe oedd y cyntaf i benderfynu fod y ddaear yn symmud, tra y mae ereill yn dywedyd fod awgrymiadau i'r perwyl hyny yn ngweithiau Philolaus (C.C. 374) ac ereill o'r hen awdwyr. Ond dygodd Copernic brofion dros ei ddamcaniaeth, nes, erbyn heddyw, mae pawb sydd yn alluog i ddatgan barn ar y pwnc wedi eu hargyhoeddi, oddieithr rhyw

un, feallai, sydd yn byw tua Liverpool. Ni chyhoeddodd ei lyfr hyd derfyn ei oes—rhag ofn, meddai rhai. Pan tua 70 oed, mae yn ei anfon i'r Wasg, ac yn ei gyflwyno yn wylaidd mewn rhagymadrodd, i'r Pab. Dygir ef allan ar gost rhyw Gardinal, a daeth y copi cyntaf i'r tŷ pan oedd Copernic ar fin marw. Bu farw'r noson hono. Yr oedd wedi siarad ac egluro llawer ar y pwnc am flynyddoedd cyn hyny. Y seryddwr enwog nesaf ar ei ol ef oedd,

TYCHO BRAHE (1546—1601),

yr hwn a anwyd yn Sweden. Dyn gwahanol iawn i Copernic. Dyn bychan, pengoch, eofn, tymherus, ystyfnig, na fynai gael ei wrthwynebu. Yr oedd yn gyfoethog iawn, ac wedi teithio dros y rhan fwyaf o Ewrop. Adroddir am dano yn ieuanc, ei fod wedi cael gwahoddiad i briodas, ac wedi ffraeo â rhyw uchelwr yn nghylch pwnc o *mathematics*. Wrth gwrs, yr oedd Tycho yn iawn; ni wyddai y gwr mawr ddim am y pwnc; ond nid oedd wahaniaeth am hyny. Yr oedd yn rhaid ymladd *duel*. Curwyd Tycho, a thorwyd ei drwyn i ffwrdd. Ymosododd yn union at wneuthur trwyn newydd iddo ei hunan, a llwyddodd yn rhyfeddol iawn i wneuthur trwyn nad oedd nemawr un yn gallu dywedyd nad ei drwyn naturiol ei hun oedd. Perthynai i deulu uchel a balch, y rhai a anfoddlonasant yn fawr iddo am briodi merch wledig dlawd. Trodd y briodas allan yn un ddedwydd iawn; ac yr oedd y wraig yn cael eistedd ar ben y bwrdd nad pwy fuasai y mawrion yn yn bresenol. Galwai ei gastell yn Uraniburg, ac yr oedd mewn ynys a gafodd gan y brenin, yr hwn oedd wedi rhoddi ato £20,000 o bunnau, at yr hyn yr oedd efe wedi ychwanegu cymmaint a hyny drachefn. Yr oedd yn byw yno "in great state," fel y dywedir, a breninoedd ac arglwyddi yn talu ymweliad ag ef. Nid oedd dim yn hoffach ganddo, gallwn feddwl, na snubio'r bobl fawrion anwybodus. Ni chawsai y rhai hyn weled ei offerynau i edrych ar y ser a'u hegluro, ond yn hytrach dangosai iddynt beiriannau bychain, yn cael eu gweithio gan lygod, ac aent i ffwrdd wedi eu boddio yn fawr, ac yn dywedyd y fath ddyn rhyfedd yw Tycho Brahe! A dyn rhyfeddol oedd, yn ddiamheu, ond nid am yr hyn feddylient hwy. Yr oedd yn ddyn gwybodus, ac etto, yn ddyn ofergoelus, a throisai yn ei ol, pe gwelsai ysgyfarnog yn croesi ei lwybr. O'r braidd y gallai fod dau ddyn mwy gwahanol nâ Tycho a Copernic, ac etto, yr oeddynt yn *pioneers* mawrion ar lwybr gwyddor—yn rhai a aberthasant eu hunain i'r dyfodol. Pan fu farw, dywedodd un o'i ddysgyblion, "Ei efrydiaethau oeddynt Rhinwedd a Gwyddor, ac Arddderchogrwydd Moesol *(nobility)* a Chrefydd oeddynt ei arweinyddion parhaus." Ar ei ol, daeth un arall mor enwog ac mor fawr ag efe ei hunan, sef

JOHN KEPLER (1571—1631),

yr hwn oedd ddysgybl iddo, ac a anwyd yn Wurtemberg. Mae darganfyddiadau pwysicaf Tycho feallai yn dal cyssylltiad â'r Lleuad, a

llwybr y comedau. Nid oedd ei ddamcaniaeth seryddol yn cytuno ag eiddo Ptolemæus, nac eiddo Copernic. Dysgai Copernic fod Mercher, Gwener, y Ddaear, Mawrth, Sadwrn, i gyd yn troi o amgylch yr haul; ond mynai Tycho fod yr haul a'r lleuad yn troi o amgylch i'r ddaear, a Mercher, Gwener, Mawrth, Iau, Sadwrn, o amgylch yr haul. Gogoniant mawr iddo yw cynnyrchu Kepler, yr hwn a gredai mor drwyadl yn ei feistr, fel y gallai amheu opiniynau y byd yn hytrach nâ sylwadau Tycho, ac yn enwedig ei Dafleni—y *Rhodolphine Tables*. Dywedir fod Kepler yn un o'r dynion mwyaf gonest a welodd y byd erioed. Yr oedd wedi beiddio gwneuthur peth nad oedd un darganfyddwr arall erioed wedi beiddio na hidio gwneuthur. Yr oedd wedi ysgrifenu hanes hir o'r hyn oedd wedi feddwl, y camsyniadau oedd wedi wneuthur, a'r modd yr oedd wedi cael allan nad oeddynt yn iawn; &c. Sut yr oedd o hyd yn ceisio gweu yr oll yn nghyd, ac yna, yn syrthio i ddyryswch y naill dro ar ol y llall; ond, o hyd, yn barod i roi i fyny un dychymyg, pan ymddangosai ei well, nes o'r diwedd, ar ol rhyw 22 mlynedd o waith caled, yr ymdorodd y dychymyg cywir a pherffaith ar ei feddwl yn ddisymwth, a braidd er syndod iddo ei hunan. Kepler ddarfu osod damcaniaeth Copernic ar sylfaen safadwy. Iddo ef y perthyn y gogoniant o ddarganfod y deddfau ar y rhai y mae seryddiaeth ddiweddar yn gorphwys. Maent yn darllen yn Saesneg fel hyn :—

1. The planets move in ellipses more or less flattened, with the sun in the focus.
2. They move so as to sweep out equal areas in equal times round the sun.
3. That, for the various planets, the squares of the periodic times vary as the cubes of the mean distance.

Cafodd Kepler allan wir symmudiadau y planedau a'r perthynasau cydrhyngddynt. Yr oedd un cam yn mhellach i fyned—beth allai fod yr achos? Gwnaeth lawer damcaniaeth, ond i Galileo a Newton y perthyn y gogoniant o lwyddo yn hynyma. Yr oedd yn wastad yn ddyn tlawd. Cafodd ei eni yn ddyn tlawd, a bu farw yn ddyn tlawd. Ar farwolaeth Tycho, cafodd ei wneuthur yn *mathematician* i'r ymherawdwr, ac yr oedd addewid am gyflog, ond yn araf iawn oedd y gyflog yn dyfod bob amser. Fel hyn y dywed ei hanesydd :—

"Yr oedd cydgordiad y bydysawd, yr hwn yr ymdrechai egluro, yn cynnyrchu ynddo nid yn unig edmygedd, ond cariad. Teimlai ei fychander po bellaf y treiddia i ddirgelion y bydysawd, ac yn deimladwy o anallu ei gynneddfau annghynnorthwyedig at y fath ymchwiliadau goruchel, ac yn cydnabod ei hunan ond megys offeryn yn llaw yr Hollalluog i amlygu ei ryfeddodau, ni ddechreuai byth ar ei fyfyrdodau heb yn gyntaf weddio am help oddifry. Ac nid oedd y tymher meddwl yma yn annghysson â'r mwyniant rhyfeddol a deimlai wrth adolygu ei ddarganfyddiadau," &c.

(*I'w barhau.*)

Y LLE MELUSAF.

Mae maes o wyrdd i'r oenyn bach,
A chwch i'r gwenyn diwyd,
A nyth o wlân i'r adar mân,
Yn mhlith y coedydd hyfryd.
Lle gorphwys sydd i'r bychain oll
Mewn rhywfan clyd: er hyny,
'Does gan yr un mor felus lle
A'r baban gyda'i fami!

Y cywion bach, mor gynhes maent
Dan edyn clyd yr heniar;
Dywedant, nid oes arnom ofn
Dim sydd ar wyneb daear.
Mor ddyogel yno nythant hwy,
Mor gynhes; ond er hyny,
Mwy dyogel a melusach yw
Lle'r baban gydâ'i fami!

Mawrth, 1880. C. F.

EIN HYSGOLION SUL A'N HEGLWYSI: PA FODD MAE EU GWNEYD YN FWY DEFNYDDIOL A LLWYDDIANNUS?

GAN J. C. LAWRENCE, BARWN, A.S.

Mr. Gol.,—Traddodwyd yr anerchiad rhagorol canlynol yn Highgate, Llundain, o flaen cynnadledd gynnwysedig o Undodiaid, yn y capel newydd a agorwyd yno yn ddiweddar, yr hwn a adeiladwyd, yn un peth, er addysg grefyddol y boneddigesau ieuainc Undodaidd ydynt yn mynychu yr Ysgol Undodaidd a sefydlwyd yn y lle o gylch blwyddyn yn ol, trwy offerynoliaeth Miss Sharpe, merch henaf yn nghyd ag ail ferch y diweddar enwog a dysgedig Mr. Samuel Sharpe, yn gystal â llawer o bleidwyr, noddwyr, a charwyr yr achos yn Llundain gan mwyaf. Gan fy mod I wedi cael llawer o flas wrth ei ddarllen yn yr *Inquirer*, meddyliais y gallai *rhai* ereill gael yr un blas arno, ac y gwnaiff ryw gymmaint o ddaioni yn y cyfeiriadau da y mae Syr J. C. Lawrence yn cyfeirio atynt, yr wyf wedi cymmeryd y drafferth o'i gyfieithu, yn y gobaith y bydd iddo gael ymddangos yn Yr Ymofynydd pan y bydd gofod yn caniatau hyny. Yn wir, ymddengys i ni fod yspryd bendigedig a gwir ddymuniad er lles a llwyddiant ein hachos da yn dyfod i'r amlwg ynddo; mewn gair, fod calon yr awdwr yn ei waith. —E. W. Lloyd.

Meddai Mr. L., "Mae y cwestiwn yma wedi cael ei ofyn laweroedd o weithiau yn flaenorol, ac y mae wedi derbyn llawer o atebion; ac y

mae yn gwestiwn fydd yn cael ei ofyn drachefn a thrachefn etto cyhyd ag y bydd i bersonau o feddwl difrifol barhau i fod ar waith yn y gwaith pwysig a daionus mewn cyssylltiad â'n Hysgolion Sabbothol a'n heglwysi. Ymddengys i mi mai y peth cyntaf ddylai gael ei argraffu ar feddwl Athraw Ysgol Sul ydyw, drychfeddwl eglur o'r gorchwyl y mae ef neu hi wedi ymgymmeryd ag ef. Y mae yn dygwydd yn rhy aml, yr wyf yn ofni, gyda rhai athrawon, eu bod yn meddwl eu bod wedi cyflawnu eu dyledswyddau i'w dosparthiadau os byddant wedi darllen i'w hysgolheigion ryw ystori sydd wedi profi ei hun yn ddyddorol iddynt eu hunain, ac felly, wedi cael effaith da arnynt, trwy eu cadw yn dawel yn eu lleoedd. Ond, bid sicr, nid dyma beth yw fy nrychfeddwl I o swydd Athraw Ysgol Sul. Ni allaf lai nâ meddwl fod yr arferiad o ddarllen ystori wedi cael ei ddwyn i fewn gyda golwg ar arbed y parotoad meddyliol yn mlaen llaw, yr hyn sydd wir angenrheidiol er addasu yr athraw gyda golwg ar yr hyn sydd yn ddyledus oddiwrtho i'w ysgolheigion. Ond, atolwg, pa gynnifer o'r ysgolheigion sydd yn ddim gwell mewn gwirionedd oblegyd gwrando ar y fath ystori? Meddyliwyf, pe byddai genym syniad priodol o addysg yr Ysgol Sul, y byddem yn ei gyflawnu mewn modd gwahanol iawn. Byddem yn ymdrechu deall a chofio rhywbeth am duedd bersonol a chymhwysder meddyliol pob un o'r ysgolheigion y mae genym i ymdrafod â hwynt, ac y dylem ymdrechu eu haddysgu yn ngwir ystyr y gair addysg; hyny yw, fod i ni, yn gyntaf, i argraffu meddyliau rhagorol a drychfeddyliau Cristionogol arnynt, ac yna, i dynu allan o'u natur fewnol ryw elfen dda o gymmeriad—rhyw rinwedd rhagorol o feddwl a chalon.

O'm rhan fy hun, yr wyf yn argyhoeddedig y bydd, yn mha le bynag y gellir ffurfio perthynas o fath hon rhwng yr athraw a'r ysgolheigion, eu cyfarfyddiad â'u gilydd er lles o bob tu, a bydd i bob un brofi ymwybodolrwydd cyflawn, fel effaith eu cydgyfarfyddiad, fod rhywbeth wedi ei ddweyd a'i wneyd fydd yn dwyn ffrwyth mewn cyfnod dyfodol nid pell. Mewn sylwadau allant syrthio o galon ddifrifol yr athraw, gall ychydig had o ddylanwad da gael ei daflu a'i wasgar, er nas gall ymddangos i ddwyn ffrwyth yn uniongyrchol, etto, gall ffrwytho mewn canlyniadau cyn y bydd llawer o flynyddau wedi ehedeg ymaith. Yn sicr, a siarad oddiar fy mhrofiad fy hun fel Athraw Ysgol Sul, dywedwn I wrth bawb athrawon, "Na ddigalonwch byth. Na roddwch fyny i anobaith oblegyd eich ysgolheigion mwyaf trafferthus." Rhai o'r bechgyn mwyaf medrus ac addawol ydynt yn fynych y mwyaf trafferthus dros amser. Gyda golwg ar ddirgymhell a gosod pwys ar yr annogaeth hon, gallaf sylwi ar beth a ddygwyddodd unwaith i mi. Ar un amgylchiad, pan aethum i gyfarfod hwyrol, sylwais ar ddyn ieuanc yn cymmeryd rhan fywiog ynddo, ond ni wyddwn I ddim ar y pryd fy mod I erioed wedi ei adwaen ef. Ar ol y cyfarfod, fodd bynag, daeth ataf, ac yn fuan, dygodd i'm cof y ffaith ei fod ef, ryw naw neu ddeg mlynedd yn ol, wedi bod yn un o'm hysgolheigion, yr hwn oeddwn wedi ei addysgu yn fy nosparth. A'r ffaith oedd, ei fod wedi bod yn un o'r bechgyn mwyaf diog yn y dosparth, a'r hwn na roddodd i

mi un arwydd ei fod wedi derbyn unrhyw les oddiwrth yr addysg a gyfrenais iddo. Etto i gyd, daeth yn mlaen yn awr i ddiolch i mi am y drafferth a gymmerais gydag ef y pryd hwnw yn fy nosparth, ac felly, deallais fod y berthynas oedd unwaith wedi bodoli rhyngom wedi gwneyd daioni mawr iddo ef, a theimlais yn fy meddwl deimladau parhaus o ddiolchgarwch. Yr wyf yn sylwi ar hyn mewn ffordd o annogaeth i Athrawon Ysgol Sul, y rhai y gall fod ganddynt amheuon, fel y mae ganddynt ar rai adegau, pa un a yw ai nad yw eu llafur yn rhoddi iddynt unrhyw addewid o ddwyn ffrwyth. Bydded i'r athraw osod gwir fywyd yn ei waith, ac er y gall rhai pobl ddweyd wrtho fod ei waith yn fethiant, ac er y gall ef ei hunan fod yn anobeithiol parth iddo, gall fod yn sicr o hyn, sef fod y dywediad, "Nad oes un gwir ymdrech byth yn myned ar goll," yr un mor wir yn awr ag erioed parth yr Ysgol Sul, fel gyda golwg ar bob gweithred o'n bywyd. Y mae un sylw arall ddymunwn wneyd mewn cyssylltiad â hyn.

Clywwn nid ychydig y dyddiau yma o ddadleu ar yr hyn elwir "athroniaeth gweddi." Y mae gan rai dynion eu hamheuaeth mewn perthynas i effeithiolrwydd gweddi. Ond gadawer i ni ddweyd wrth athrawon yr Ysgol Sul ei fod yn hanfodol i lwyddiant eu gwaith iddynt hwy i ddyfalbarhau a meithrin yr arferiad o weddi. Os bydd i athraw ymgymmeryd ag un gorchwyl da gydag yspryd gweddi yn ei galon, ni fydd fyth i fethu, na llwfrhau, na rhoddi i fyny y cyfryw mewn anobaith. Ni all methiant fyth syrthio i ran y dyn, y bachgen, neu y ferch sydd yn ymgymmeryd â'r gwaith o addysgu yn yspryd Crist, yn yr yspryd o undeb gyda Duw.

Y mae y cwestiwn pa fodd i ni wneyd ein heglwysi yn fwy defnyddiol a llwyddiannus yn bwnc mwy eang nâ'r hwn ydym wedi newydd gyfeirio ato. Ond gellir canlyn, gyda llawer o briodoldeb, yr un llinellau myfyrdod mewn perthynas i hwn. Y mae yn ddyledus nid yn unig ar weinidog yr eglwys, ond ar bob aelod o'r gynnulleidfa i fod yn deimladwy o'i gyfrifoldeb. Tra y gellir dysgwyl gyda rhesymoldeb fod y gweinidog yn ffyddlon i'w ddyledswydd yn y pwlpud ac allan o hono, gellir dysgwyl hefyd ar y llaw arall, fod y gynnulleidfa yn mynychu ac yn dysgwyl at wasanaeth tŷ gweddi mewn yspryd uwch a mwy teilwng nag fel barnwyr y bregeth—beirniaid naill o fater neu'r traddodiad o honi. Pan y mae gweinidog ffyddlon yn cael ei eilio a'i gynnorthwyo gan ddynion a menywod twymgalon, y rhai ydynt yn mynychu yr addoliad cyhoeddus gyda gwir ddymuniad, ac amcan o gymmeryd ymaith gyda hwynt rhyw *idea* rhagorol neu feddwl yspryddoledig, yr hwn all dymheru a nefoli pob gweithred o'r eiddynt yn ystod yr wythnos ddyfodol, a threiddio trwy bob rhan o'n gweithredoedd, a'r galwadau y maent yn ymwneyd â hwynt; dynion a menywod sydd yn ceisio ac yn dwyn eu holl ymddygiad, pa un ai mewn masnach neu unrhyw alwad neu sefyllfa mewn bywyd, i gydymffurfiad â'r hyn maent wedi ei glywed dydd Sul—pan y mae y sefyllfa yma o bethau yn bodoli, honaf yn hyderus na all y fath gynnulleidfa lai nâ bod yn llewyrchus yn ol ystyr oreu y gair. Cofiwn oll yn dda pa fodd a pheth ddywedwyd am y Cristionogion boreuol, "Wele, fel y mae y Cristion-

ogion yma yn caru eu gilydd," a'r fath ddylanwad da gafodd yr olwg yma o gariad ar feddyliau y cenedloedd paganaidd amgylchynol. Ac oni feddyliwn ni y buasai y fath ddylanwad moesol cyffelyb yn cael ei achosi ar feddwl y bobl y dydd hwn pe buasai pob aelod unigol yn mhob cynnulleidfa Gristionogol trwy y teyrnasoedd yn byw yn mhob ystyr yn deilwng o'r ffydd grefyddol maent yn ei phroffesu? Oni feddyliwch chwi pe y gallesid dweyd am yr holl addolwyr yn ein heglwysi, "O mor gydwybodol onest ydynt oll yn eu trafodaeth gyda eu cyd-ddynion, ac mor deilwng o efelychiad yn mhob perthynas arall mewn bywyd ydynt," y buasai dylanwad felly yn dylifo oddiwrth Gristionogaeth fuasai yn cyrhaedd i fanau tywyllion y ddinas fawr hon, ac yn amddifadu yr anffyddwyr a'r *secularists* a'r *gnostics* o arfau trymaf eu hymosodiad ar ein crefydd ddwyfol? Yn lle eu bod yn alluog i bwyntio at ddynion o broffes grefyddol fawr ac o ychydig gyflawniad, buasent yn cael allan mewn cynnulleidfaoedd Cristionogol ddim ond y rhai fyddai eu hymarferiad mewn undeb â'u proffes, a ydych chwi yn meddwl y byddai ffauau drygioni yn aros heb gael eu haflonyddu, neu y buasem yn clywed drachefn bobl yn siarad am rai rhanau o'r brif ddinas fel "Llundain ddychrynllyd," fel y maent ar rai prydiau yn siarad am dani? Meddyliwyf, na. Gadawer i mi ddweyd, gan hyny, fy mod I yn gosod pwys mawr ar fod gweinidog yn ymgymmeryd â'i waith mewn gwir yspryd gweddi. A phan wyf yn siarad am yspryd gweddigar, nid wyf yn golygu yspryd sydd yn amheu pa un a yw Duw yn gwrando ac yn ateb ein gweddiau. Wrth wir yspryd gweddi golygaf yspryd un sydd yn argyhoeddedig ac yn credu yn ddwys ac yn gadarn yn y grediniaeth y gallwn ni agoshau at ein Tad o'r nef gyda'r un fath deimlad ag y mae plentyn yn ceisio ei dad a'i fam; a chyda pherffaith ymddiried y bydd Ef yn sicr o wrando ein gweddiau, ac er na fydd iddo roddi neu ateb ein holl geisiadau, etto y bydd Ef yn sicr i wneyd yr hyn sydd oreu erom, hyd y nod fel y mae tad da neu fam dda yn gwneyd yr hyn sydd oreu i'w phlentyn, gan gymmeryd dan ystyriaeth yr holl amgylchiadau. Pan y mae y fath weinidog yn cael ei gynnorthwyo, ac nid ei oeri a'i wangaloni gan ei gynnulleidfa, a phan y mae pob un o honynt yn cael eu llywodraethu gan yr un yspryd—yspryd sydd yn eu harwain i efelychu y naill a'r llall yn rhedegfa daioni, ac yn ymdrechu gyda golwg ar ba un o honynt fydd fwyaf mewn undeb gydag ewyllys eu Tad nefol, dywedaf nas gall y fath gynnulleidfa fethu bod yn ddefnyddiol a llwyddiannus.

Dywedir wrthym yn *Mywyd Franklin*, y chwerthinid am ei ben pan siaradai am dynu goleuni i lawr o'r cymmylau. Etto, y mae yr hyn feddylid unwaith ei fod yn anmhossibl wedi cael ei gyflawnu. Ond, bid sicr, y mae dylanwadau anweledig heblaw rhai materol o fewn cyrhaedd dyn—hyd y nod ddylanwadau yspryd ol o'r uchelder. Y mae gweddi onest, ddifrifol, a chalon deimladwy yn dwyn i lawr, hyd y nod fel y gallwn ddwyn goleuni oddiwrth y cymmylau, yr hyn a alwn ni yr Yspryd Sanctaidd—yspryd sydd nid yn unig yn rheoleiddio calon yr hwn sydd yn gweddio, ond yn arfer dylanwad er da ar bob dyn sydd yn dyfod o fewn gafael y dylanwad hwn. Yr undeb

ysprydol yma o amcan ac ymdrech rhwng y gweinidog gweddigar a phobl weddigar ydyw yr hafan tuag at yr hon y dylent gyrchu yn barhaus, gan annghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen. Bydded can lleied ag sydd bossibl o feirniadu pregethau yn unig; bydded awydd naturiol a difrifol o bob tu, ar rau y gweinidog a'r gwrandawyr tuag at y cyflawniad o bob amcan cyfiawn a da; ac er na welir yr Ysprydd Sanctaidd yn disgyn ar y fath gynnulleidfa mewn ffurf weladwy, bydd yn nawseiddio pob gweithred o'r eiddynt, dylanwadu ar eu meddyliau ac ar eu hymdrechion cyfiawn, a bydd iddynt geisio yn barhaus oddiwrth Dduw y cymhorth hwnw, heb yr hwn y bydd pob ymdrech ddynol yn sicr o fethu."

Cafodd y geiriau argraffiadol yna o eiddo Syr James, a'r ysprydd difrifol nodweddai eu traddodiad, sylw astud ei wrandawyr; ac ar ei ddiwedd, fel yn y dechreu, cafodd gymmeradwyaeth wresog.

FY NGHYFFES FFYDD I.

Mae yr *Inquirer* yn cyhoeddi y "Gyffes Ffydd" ganlynol, yr hon sydd, a dywedyd y lleiaf, yn ddigon amrywiol a digon llydan :—

1. Yr wyf yn *Theist*, gan mai ffydd yn Nuw yw yr Ysprydd Cyffredinol yn erthygl *communis sensus* (synwyr cyffredin) dynolryw.

2. Yr wyf yn *Monotheist*, gan fod undeb amcan a bwriad yn Natur yn dadguddio Un Bod Hollalluog a Hollwybodol.

3. Yr wyf yn *Pantheist*, gan fy mod, yn ngoleuni ffydd barchus, yn canfod Duw yn holl Natur.

4. Yr wyf yn *Agnostic*, gan fod yr anfeidrol yn myned goruwch y meidrol, ac nas gallaf ond rhyfeddu ac addoli yn mhresenoldeb y Dirgelwch anfeidrol.

5. Yr wyf yn *Ysprydolydd*, gan fy mod yn credu fod enaid ac ysprydd mewn dyn yn gyffelyb i'r ysprydd dwyfol yn y bydysawd.

6. Yr wyf yn *Materolydd*, gan fy mod yn credu fod Mater hefyd yn waith Duw, ac os oes ynddo "yr addewid a'r galluadwyrwydd o bob ffurf o fywyd" (Tyndal), fod hyny yn bod o herwydd fod Duw wedi planu y galluadwyrwydd (*potency*) hyny.

7. Yr wyf yn *Oruwchnaturiolydd*, am fy mod yn credu mewn gallu uwch nag sydd yn cyfarfod à'r synwyrau, yr Ysprydd bywiol sydd y tu cefu i bob peth gweledig, yr hwn yw bywyd dwfn y Bydysawd.

8. Yr wyf yn *Wrth Oruwchnaturiolydd*, am fy mod yn credu nad oes yn y Kosmos yma ddim trosoddiad ar drefn ac unffurfiaeth dragywyddol deddf, ac yr wyf yn gwrthod gwyrthiau fel yn hollol annhebygol, er nad yn llwyr anmhossibl.

9. Yr wyf yn *Gatholic*, ac yn wir yn "Hen Gatholic," am fy mod yn myned yn ol at Gristionogaeth Foreu, cyn i lygriadau a thraddodiadau yr Eglwys godi, ac yn fy mherthynasau eglwysyddol, yr wyf yn dymuno perthyn i'r Eglwys Gatholig neu Gyffredinol.

10. Yr wyf yn *Brotestant*, yn protestio yn erbyn pob math o gyfeiliornad ac ofergoeledd.

11. Yr wyf yn *Annghydffurfiwr*, gan fy mod yn annghydffurfio oddiwrth bawb nad ydynt yn cydffurfio â mi, tra ar yr un pryd, yr wyf yn cydnabod hawl pob un sydd i annghydffurfio â mi, ac yr wyf yn wastad yn ymdrechu "cadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd."

12. Yr wyf yn *Efengylaidd*, am fy mod yn dymuno dal yn ddiysgog wrth wir grefydd yr Iesu yn ei holl symlrwydd.

13. Yr wyf yn *Ddefodwr* ar yr ochr *Aesthetic*, am fy mod, tra yn hollol wrthod Offeiriadolrwydd, etto, yn credu y dylai gwasanaeth allanol crefydd fod yn ddeniadol.

14. Yr wyf yn *Rhesymolwr* am fy mod yn dal fod appêl Crefydd a'r Beibl at reswm a chydwybod, ac nid wyf yn cydnabod un awdurdod uwch.

15. Yr wyf yn *Annghydffurfiwr Llydan Eglwysig*, am fy mod, er heb gydffurfio ag unrhyw Eglwys Sefydledig, tra y mae ei chredoau yn cynnwys mwy neu lai o gyfeiliornad, yr wyf yn dymuno cydnabod pa beth bynag sydd o wirionedd mewn ffurfiau o feddwl gwahanol iawn i'r eiddof fy hun.

16. Yr wyf yn *Fedyddiwr*, am fy mod yn dymuno gweled fy Eglwys fy hun a phob Eglwys arall wedi ei bedyddio yn yspryd a nerth gwir grefydd.

17. Yr wyf yn *Annybynwr*, am fy mod yn dymuno cynnal rhyddid ac annybyniaeth ein Heglwysi.

18. Yr wyf yn *Episcopaliad*, am fy mod yn cydnabod dylanwad ac arweinyddiaeth naturiol ein meddylwyr a'n gweithwyr crefyddol blaenaf, cyssegriad Esgobyddol a gwir olyniaeth Apostolaidd y rhai sydd yn gorwedd mewn caracter a gwasanaeth, ac nid mewn unrhyw seremoniau eglwysyddol.

19. Yr wyf yn *Undodwr* nid yn unig yn yr ystyr o credu yn undod rhifyddol Duw, ond yn undod priodoleddau dwyfol ei garacter a'i amcan.

20. Yr wyf yn *Drindodwr*, am fod y Duw adnabyddedig yn cael ei amlygu mewn dynoliaeth *ideal*, ac yn actio ar yr Enaid trwy Ei Yspryd ei Hun o gariad a sancteiddrwydd, a'r tri hyn un ydynt.

21. Yr wyf yn *Gyffredinolwr (Universalist)*, yn credu yn nghyffredinolrwydd y cariad dwyfol, a chyffredinolrwydd deddf, a chyffredinolrwydd prynedigaeth, a chadwedigaeth pawb dynion yn y pen draw.

22. Uwchlaw pob peth, yr wyf yn *Gristion*, am nas gallswn pe gwnawn, ac nas gwnawn pe gallswn, ymwahanu oddiwrth fywyd crefyddol ac olyniaeth hanesyddol y Byd Crefyddol.

23. Yr wyf yn dymuno bod yn un o'r bobl briodol, y "Peculiar People," y rhai ydynt awyddus i weithredoedd da (Titus ii. 1).

24. A phan yr wyf gyda'r rhai hyny ydynt ffyddlon i achos rhyddid a chynnydd crefyddol, yr wyf yn teimlo fy mod yn perthyn i'r *Cyfeillion* (*Society of Friends*).

Dyma y wir Eglwys, yr hon sydd wedi ei harfaethu, gobeithiaf, i fod nid yn sectarol, nac hyd y nod yn genedlaethol, ond mor eang â dynoliaeth.

Hon yw y ffydd Gatholig, yr hon ffydd onis creda pob dyn hi yn ffyddlon, yn ddiamheu ni all efe fyned i mewn i gymmundeb y rhai ydynt yn rhyddion ac yn caru'r gwir. Amen.

FFYNNONELL DYDDANWCH.

Nid oes dim yn fwy gwir a sylweddol yn y byd hwn nag mai Crefydd ydyw yr unig ffynnonell o'r hon y gellir sugno dyddanwch. Y mae hyn yn cael ei ddangos a'i brofi yn barhaus. Galwodd hen wr gyda ni unwaith, yr hwn nid adwaenem ni. Yr oedd wedi newydd golli ei wraig trwy farwolaeth. Galwai hi "ei anwyl hen enaid." Gan mai morwr oedd, ni welsom ni ef byth wed'yn. Dywedodd wrthym ei fod ef a'i wraig wedi mynychu The Hall of Science, Llundain, yn yr hon y mae Mr. Bradlaugh a'i gyfeillion yn cyhoeddi eu syniadau anffyddol. Ni ddarfu i ddim a glywedd yno erioed roddi yr un dafn o gyssur iddo ef. Yr oedd wedi cael ei fwrw i lawr gan ofid a thrallod. Wedi ei gystuddio yn drwm oblegyd ei golled, erfyniai yn daer arnom, a gofynai os y gallasem ni ddywedyd gair o gyssur iddo? Dywedasom y gallem, &c., &c.

Gwelsom, yn ddiweddar, yn un o bapyrau America y llythyr rhyfeddol canlynol o eiddo Colonel Ingersoll (Anffyddiwr), i fam, yr hon oedd wedi ceisio gair o gyssur ganddo yn ngwyneb colli, trwy farwolaeth, ei mab.

Nid oes yr un gair o gyssur ganddo ef i'w roddi i fam alarus, ond oddiar y dybiaeth o'r possiblrwydd y gall fod Crefydd yn wir. Dywed:—

"Nid wyf yn ddigon ffol i ddychymygu y gallaf fi ddweyd neu wneyd dim i leihau eich galar mawr a'ch tristwch yn ngwyneb ei golli; ond efallai y gallaf ddweyd rhywbeth i yru ymaith o'ch calon dlawd ellyll eich ofn. Os oes Duw, gadewch i ni gredu ei fod yn dda; ac os yw yn dda, nid oes gan y da ddim i'w ofni. Yr ydys wedi dweyd wrthyf fod eich mab yn garuaidd ac haelionus—ei fod wedi ei lanw gan gariad a chydymdeimlad. Yn awr, gwyddom fod cyffelyb yn dwyn ei gyffelyb yn y byd hwn; y mae caredigrwydd yn achosi caredigrwydd, ac y mae pob da yn dwyn ffrwyth llawenydd. Nid yw crediniaeth yn ddim—gweithredoedd yw pob peth; ac os oedd eich mab yn gariadus, bydd yn naturiol i gael allan garedigrwydd yn mha le bynag y gall fod. Os oes Duw yn bod, nid yw eich bachgen fwy yn nwylaw ei hunan yn awr nag oedd yn nwylaw ei hunan cyn ei farwolaeth—ddim yn fwy nag ydych chwi ar y foment bresenol. Paham y dylech ofni Duw yn fwy ar ol marwolaeth nâ chyn hyny? A ydyw teimlad Duw tuag at ei blant yn newid y foment y maent yn marw? Tra yr ydym yn fyw, dywedant fod Duw yn ein caru ni; pryd y bydd

iddo ddarfod ein caru? Nid yw gwir gariad ddim byth yn cyfnewid. Erfyniaf arnoch i fwrw ymaith bob ofn. Ymgynghorwch â'ch calon eich hun. Os yw Duw yn bodoli, eich calon yw y dadguddiad goreu o hono Ef, ac ni allai eich calon fyth ddanfon eich mab i boen annherfynol. O dan fwa saeth lluriog gobaith, gadawer i'r marw gysgu. Carwn pe gallwn ddweyd rhywbeth fuasai yn seren i chwi yn nos eich galar—rhyw flodeuyn bychan ar eich llwybr unig—ac os oes gan annghredadyn y fath ddymuniad, bid sicr na wnaeth bod anfeidrol dda yr un enaid erioed i fod yn ymborth poen trwy flynyddoedd dirifedi. —Yr eiddoch yn wirioneddol,

R. G. Ingersoll."

Ateb y fam:—

"Yr heddwch cyntaf wyf wedi ei adwaen, gwir heddwch, oddiar yr ergyd dychrynllyd ddaeth i'm rhan hyd yn awr. Tra na bydd i mi amheu bodolaeth Duw, teimlaf y gallaf orphwys fy nghalon glwyfus ar ei ddaioni a'i drugaredd; ac yr ydych chwi wedi fy helpu i hyn. Yn wir, yr ydych wedi fy helpu i gredu mewn Creawdwr holl-drugarog a chariadlawn, yr hwn sydd wedi cymmeryd ato ei hun (ymdrechaf gredu) fy machgen tlawd—fy mhlentyn cariadus a mawr galon—i'w freichiau cysgodol a thyner."

Nid yw yr uchod yn galw am yr un sylw o'r eiddom ni. Y nod at yr hon y mae yn rhaid i'r enaid dynol droi ato mewn trallod, i gael ysgafnhâd a gwaredigaeth, yw Duw.

Gyda golwg ar ddynion a menywod yn ysgol anobaith ac annghrediniaeth, y mae yn rhaid iddynt ymostwng yn ostyngedig a gobeithiol o flaen gorsedd Duw.—O'r *Christian Life* (*Ilhag.* 12, 1885).

E.

"Y DDEILEN GRIN."

(Cyfieithad.)

[D.S.—Nid oes genyf gof na chyfrif yn mha le y gwelais I y gwreiddiol, na chwaith pwy ydyw yr awdwr.]

Cain ddelw prydferthwch flodeuodd dro bach,
A barodd dros dymhor i'r wig wenu'n iach,
Ha! da gwnei di ffoi rhag y traws gorwynt chwyth,
Yn drist 'r ol y dyddiau giliasant am byth.

Ni faethir dy gorsen mwy gan wres y dydd,
Mwy iti ail lesni gwlith hwyrawl ni rydd;
Rhaid iti ymadael â'th frigyn ar fyr,
A Thachwedd traws ymaith ti'n greulawn a ŷr.

Iawn arlun o ddyn wyt yn ngolwg y doeth ;
Chwim fel 'r ciddot tithau ei Wanwyn dry 'n noeth ;
Byr iawn bair ei gryfder a'i hafaidd lân bryd,
A Hydref* ei ddiwedd gauafol a ddyd.

Man rhaner y brigyn a thi, ddeilen grin,
I'r llwch y dychweli am fyth fythol hun ;
Ond dyn, breiniol ddyn, adgyfodir o'i fedd,
I *hwn* ail-flagura fythol Wanwyn llawd hedd.

Cyf. CYNONWYSON.

EMMANUEL VON SWEDENBORG.

Y MAE enw a syniadau y gwr enwog yma yn tynu llawer iawn o sylw yn rhai parthau o Gymru y dyddiau presenol, fel y credwn y gall ychydig o'i hanes fod yn ddyddorol i rai o'n darllenwyr. Deallwn fod lluaws tua Chwmtawe yn ddiweddar wedi proffesu eu hunain yn ddysgyblion iddo, a bod hyny wedi peru nid ychydig o ferw yn y gymmydogaeth. Y mae yn ddiamheu fod ysgrifeniadau Swedenborg wedi gadael llawer o argraff dda ar lenyddiaeth ein gwlad, a chawn lawer o ddynion pwysig o wahanol enwadau yn cydnabod eu rhwymedigaeth iddo. Mae tuedd ei syniadau wedi bod i ysprydoli meddyliau dynion. Nid oes nemawr neb yn proffesu deall yr oll o hono—y mae cymmaint o hono allan o'r *rut* cyffredin. Felly, dyma ni yn cydnabod yn rhwydd ei fawredd a'i ddaioni, tra, ar yr un pryd, heb gytuno ag ef, na phroffesu ei ddeall.

Ganwyd Emmanuel Von Swedenborg yn Stockholm, yn 1688, a bu farw yn 1772. Mab ydoedd i esgob Lutheraidd yn Westgothland, ac enwogodd ei hunan yn nhymhor boreu ei fywyd mewn llenyddiaeth a gwyddor. Gwnaeth Charles XII. ef yn "*Superintendent of Mines*" yn 1716, a chyrhaeddodd wybodaeth ddwfn yn mhob cangen o wyddoniaeth naturiol, ac yn neilldiol mewn metelyddiaeth, fel yr amlygir yn amryw o'i weithiau. Cafodd ei wneuthur yn aelod o Gymdeithas Wyddonol Stockholm, ac yn *Associate* o Brif-Ysgol St. Petersburg. Yn ddisymwth dychymygodd ei fod wedi derbyn dadguddiadau o'r nefoedd, ac ymddiswyddodd oddiwrth y gwahanol alwedigaethau oeddynt yn ei law yn barod, er mwyn ymgyflwyno i'r genadwri o adnewyddu Cristionogaeth, gwaith a dybiai fod wedi ei ymddiried iddo. Yn 1743, pan yn 55 mlwydd oed, cafodd ei weledigaeth gyntaf, ac o'r amser hwnw allan, treuliodd ei holl ddyddiau i ledaenu ei athrawiaethau â'i dafod a'i ysgrifell. Ei brif weithiau crefyddol ydynt "Dirgelion Nefol," "Yn nghylch Nefoedd ac Uffern, oddiwrth bethau a welir ac a glywir,"—yn yr hwn y mae yn traethu ei syniadau yn nghylch angylion a chythreuliaid ; "Ar y Jerusalem Nefol," "Y wir

* Autumn.

Grefydd Gristionogol, neu Dduwinyddiaeth yr Eglwys Newydd." Yn y ddau olaf y mae yn dysgu ei athrawiaethau duwinyddol. Yr oedd Swedenborg yn credu mewn byd o yspryd a byd o ddefnydd *(material)*; yn y byd ysprydol ceir pob peth ag sydd yn bodoli yn y byd materol, ond ei fod mewn ffurf arall. Daliai fod tri ystyr i'r holl Ysgrythyr:—Yn gyntaf, yr ystyr naturiol; yn ail, yr un ysprydol; yn drydydd, yr un dwyfol neu nefol. Yr oedd yr ystyr ysprydol yn anhyspys i'r byd hyd ymddangosiad Swedenborg—efe ddaeth i'w ddadguddio. Gelwir ei eglwys yn Jerusalem Newydd, a'i ddysgyblion yn Swedenborgiaid. Heblaw ei weithiau crefyddol, mae Swedenborg wedi gadael llu afrifed braidd o weithiau mewn gwahanol gangenau o Wyddoniaeth Naturiol. Yr oedd yn amlwg fod ganddo ffydd ddiysgog yn ngwirioneedd ei weledigaethau ei hunan; ac y mae yn sicr ei fod yn feddyliwr dwfndreiddiol, ac, yn well nâ'r cwbl, yn ddyn dysgedig a rhinweddol.

Tebyg i hyn y dywed Chambers:—Mae hanes bywyd Swedenborg yn hynod iawn am ei fod yn ymranu i ddwy ran hollol groes i'w gilydd; y rhan flaenaf, hyd nes oedd yn 55 oed, yn cael ei gyflwyno yn hollol at wyddoniaeth pur a'i waith swyddogol o dan Frenin Sweden, a'r 28 mlynedd olaf o'i fywyd at gyfriniaeth ysprydol, a'r sylfaeniad o grefydd newydd. Teimlir gan y cyffredin fod ei lyfrau lluosog ar bynciau crefyddol, ar y cyfan, yn annarllenadwy. Nis gall fod un amheuaeth resymol, fodd bynag, nad oedd yr awdwr mor onest, yn ei ddesgrifiadau o'r byd ysprydol, ag y bu erioed mewn perthynas i'r mwyaf materol o'i fyfyrdodau blaenorol. Feallai, wedi'r cwbl, fod rhyw broblem *psychological* etto i'w esponio yn foddhaol o barthed i gyfrinwyr *(mystics)* fel efe, yn cyfeirio yr oll i weithrediad rhyw ddeddf sydd hyd yma yn anadnabyddus.

Mewn llythyr a ysgrifenwyd, yn 1764, gan Kant, athronydd enwocaf ei oes, rhoddir rhai manylion tra chywrain yn nghylch Swedenborg, am yr hwn y credai Kant ei fod yn meddu rhyw ddawn rhyfeddol iawn. "Yn y flwyddyn 1756," ebe fe [1759, fodd bynag, yw y *date* gwirioneddol], "pan oedd Swedenborg, un Sadwrn tua diwedd Chwefror, am bedwar o'r prydnawn, wedi cyrhaedd Gottenburg o Loegr, gwahoddwyd ef gan Mr. Wm. Coster i'w dŷ, yn nghyd â rhyw bymtheg o bersonau ereill. Tua chwech ar gloch aeth Swedenborg allan, ac yn mhen ychydig, daeth yn ei ol at y cwmni yn welw iawn ei wedd, ac mewn ofn mawr. Dywedodd fod tân mawr wedi tori allan yn Stockholm (y mae Stockholm 300 milldir o Gottenburg), a'i fod yn gwasgar yn gyflym. Yr oedd yn anesmwyth, ac yn myned allan yn fynych. Dywedodd fod tŷ cyfaill iddo, rhoddodd ei enw, eisoes yn ulw, a bod ei dŷ ef ei hun mewn perygl. Am wyth ar gloch, pan oedd wedi bod allan drachefn, dywedodd yn llawen iawn, 'Diolch i Dduw! Mae y tân wedi ei ddiffodd ar y trydydd drws oddiwrth fy nrws I!' Achosodd y newydd yma gyffro mawr trwy yr holl ddinas, ac yn neillduol i'r cwmni lle yr oedd. Hyspyswyd y Rhaglaw yr un noson. Ar foreu dydd Sul, anfonwyd am Swedenborg gan y Rhaglaw, yr hwn a'i holodd yn nghylch y galanasdra. Desgrifiodd Swedenborg y tân yn fanwl—sut yr oedd wedi dechreu, sut yr oedd wedi darfod, a pha hyd y par-

haodd. Ar nos Lun, cyrhaeddodd dyn Gottenburg, yr hwn oedd wedi ei anfon allan o Stockholm yn amser y tân. Yn y llythyrau a ddygwyd ganddo, rhoddid desgrifiad manwl, yr hwn oedd yn cytuno yn hollol â desgrifiad Swedenborg. Boreu dydd Mawrth, daeth y *courier* breninol gyda manylion pellach am y tân—y golled oedd wedi achosi, y tai oeddynt wedi eu niweidio a'u dystrywio, yn cytuno yn hollol etto â'r desgrifiad a roddwyd am wyth ar gloch nos Sadwrn, gan Swedenborg. Yr oedd y tân wedi ei ddiffodd am wyth."

Y mae Kant yn ychwanegu "Beth ellir ei ddwyn yn erbyn gwirioneedd yr hanes yma? Y mae fy nghyfaill, yr hwn a roddodd yr hanes yma i mi, nid yn unig wedi gwneuthur ymchwiliad i'r amgylchiadau rhyfeddol yn Stockholm, ond, hefyd, yn Gottenburg, lle y mae yn gyfarwydd yn y tai mwyaf *respectable*, a lle y gallai gael yr hyspysrwydd mwyaf cyflawn a gwirioneddol."

Yr oedd llawer yn mhrofiad Swedenborg yn ymddangos yn debyg i'r hyn a glywn ni yn bresenol am brofiadau yr ysprydegwyr. Yr oedd yn dal cymmundeb mynych ag ysprydoedd yr ymadawedigion, ac adroddir ei fod weithiau yn cwrdd ac yn cyfarch ag enwogion oesoedd y gorphenol ar ystrydoedd Llundain. Ni chlywsom fod neb wedi gweled Abraham a Moses yn Llundain wedi i Swedenborg ddychwelyd adref.

Mae yn Llundain gymdeithas er lledaenu ei weithiau. Enw yr ysgrifenydd yw James Speirs, 36, Bloomsbury Street, London. Cydnabydda llawer o weinidogion o wahanol enwadau eu rhwymedigaethau i ysgrifeniadau Swedenborg, a chawn ei fod wedi ei anrhydeddu â'r trydydd lle yn mhlith "Representative Men" Ralph Waldo Emerson, yr awdwr Americanaidd enwog, ac yn destyn un o ddarlithiau y diweddar George Dawson, M.A., o Birmingham. Mae Dawson yn dechreu ei ddarlith yn debyg i hyn :—"Mae gan Swedenborg y rhagorfraint nad yw yn perthyn i bawb a gyflwynant eu bywydau at feddwl—fel mae'r byd yn dyfod yn henach, eu bod hwy yn dyfod i fwy o barch, i fwy o adnabyddiaeth, ac i gael eu caru yn well. Y dynion a redir ar eu hol yn eu bywydau, y dynion o *action*, y dynion o swn, derbyniant eu had-daliad yn y byd hwn. Yr oedd Charles y Deuddegfed yn ddyn o alluoedd mawrion, yn filwr rhyfeddol, ac yn rhai ystyriaethau yn frenin mawr, ond y mae yn diflanu yn gyflym allan o gôf dynion; tra mae ei gyfoed Swedenborg yn meddu y rhagorfraint o ennill sylw mwy yn mhob cenedlaeth olynol. O'r braidd yr adwaenir y brenin heddyw, tra mae dylanwad Swedenborg yn fawr, ac yn dyfod yn fwy bob dydd."

YR WYDDFA.

Brenines bryniau anian,—Eryri,
Yr awyrawl drigfan;
Neud yw i fardd, hynod fan
I ledu golwg lydan.

Copa yr Wyddfa gyraeddfawr—welir,
A'i olwg tra gwynwawr;
Hyd druman gwledydd tramawr,
Heb wibio hwnt ar bob awr.

Eira, gwyn ddilledyn o ddull odiaeth,—rhew,
Ia oer barug helaeth,
Sydd ar ei phen gymhen gaeth
Er ddy'-gwyl creadigaeth.

At hon pa beth yw Etna,—neu Fynnan
Wen fanawg Europa;
Oll yn oer, llawn yw o ia,
O! gwelwch fanau Gwalia.

Tra ser neu haulwen olau,—tra y llu
Tröellawg ganwyllau,
O! poed hon mwy yn ein pau
Yn addurn i fynyddau.

Ceredigion. THOMAS EMLYN THOMAS.

(O *Seren Gomer*, 1842, tud. 306.)

NEFOEDD AC UFFERN.

AM y tro cyntaf, ar faes YR YMOFYNYDD, dymunaf gyfeirio at rai o syniadau y brawd a ysgrifenodd yr ysgrif ar "Nefoedd ac Uffern," yn rhifyn Tachwedd. Nis gallaf yn fy myw weled yr un rhith o gyssondeb na chyssylltiad rhwng egwyddorion ei ysgrif ag hanfodion gwaith ac amcanion Awdwr Mawr y Greadigaeth.

Y sylw cyntaf a gawn nodi yw, fod presenoldeb Duw, dan ammodau neillduol, yn creu uffern (tebygwyf mai yn y fynwes ddynol y mae y brawd yn cyfeirio). Yn awr, yr annghyssondeb a gyfyd yn naturiol i'r wyneb yw, pa fodd y gall yr Un Mawr a Goruchel, yn ei ddoethineb, yn ei gariad Anfeidrol, ac yn ei amcanion doeth a thadol, gynnyrchu y fath fraw yn un o'i greaduriaid rhesymol? Mae y meddylddrych, ar unwaith, yn taflu cymmylau gordduol ac amwisg y bedd ar bob peth. Ond y mae y brawd fel pe yn troi ar ei sawdl, ac yn dweyd gyda'r un anadliad, fod presenoldeb yr un Bod yn creu nefoedd yn yr un hiliogaeth. Yn awr, mae caracter Duw yn hollol wahanol i'r fath feddylddrych daearol â hwn. Dysgwn, yn natguddiad mawr Natur, fod Duw yr un ddoe ac yn dragywydd yn ei holl weithrediadau, ac os oes yna gyfnewidiad o gwbl, ac, yn ddiddadl, y mae, y dyn ei hunan sydd yn cyfnewid yn ei weithrediadau, ac, o angenrheidrwydd, yn cyfnewid yn ei deimladau cydwybodol a chyfrifol gyda golwg arno ei hunan. Yr enghraifft sydd ganddo yw, mai yr un ddeddf sydd yn

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

YR

YMOFYNYDD:

CYHOEDDIAD MISOL AT WASANAETH

UNDODIAID CYMRU.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL XI.—1886.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., COMMERCIAL PLACE.

1886.

GAIR Y GOL.

Dyma gyfrol arall wedi ei gorphen, yn gwneuthur y ddeuddegfed dan yr olygiaeth bresenol, ac nid oes neb yn fwy parod nâ'r Gol. i gydnabod pa mor anmherffaith yw wedi bod. Carem yn fawr pe buasai amser a defnyddiau wedi caniatau i ni wneuthur ein gwaith yn well. Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar yr help parod yr ydym wedi ei gael oddiwrth rai, a gobeithiwn nâ fydd achos iddynt hwythau edifarhau am eu gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaeth rhad ydyw gwasanaeth Yr Ymofynydd yn rhwym o fod, gwasanaeth cariad at yr achos da ar ran Golygydd, gohebwyr, a dosparthwyr. Y mae y Golygydd wedi gweled ffyddlondeb mawr ar ran llawer, ffyddlondeb nad oedd yn bossibl heb lawer o hunan-aberth; ac y mae treigliad amser yn symmud rhai yn barhaus. Yr ydym wedi colli dau ddosparthwr yn ystod y flwyddyn, sef Mr. Daniel Jones, gohebydd Ciliau, a Mr. David Enoch, Rhymni, dau nâ fu erioed eu ffyddlonach. Mae llawer o bleser mewn cyssylltiad â gwasanaeth fel hwn, ond pleser yw yn gymmysgedig â pheth poen, a llawer o ofal a phryder a chost.

Wedi deuddeg mlynedd o wasanaeth, yr ydym yn awr yn awyddus i weled rhywun arall yn cymmeryd y baich i fyny, a gwneuthur ei ran; ac y mae yn dda genym gydnabod fod cyfeillion caredig yn cydweled â ni yn hyn. Yr ydym yn awyddus, gan hyny, i bawb cyfeillion Yr Ymofynydd gymmeryd dan eu hystyriaeth y pwys o bennodi golygydd newydd a fyddo yn debyg o sicrhau cydweithrediad cyffredinol. Ceisiwn ei gario yn mlaen hyd Ebrill, ac erbyn hyny, gobeithiwn y bydd i ryw wawr newydd dori, neu os bydd rhaid i'n hunig gyhoeddiad encilio o'r maes unwaith etto, bydd yn gwneuthur hyny gyda chydsyniad yr eglwysi yn gystal â'r gweinidogion. Ofnwn, os encilio wna, na welir genym gyhoeddiad Cymreig byth wed'yn. Yr ydym wedi teimlo dan orfod i wneuthur hyn o sylwadau, a gobeithiwn y maddeuir i ni am hyny.

CYNNWYSIAD.

Awr Angeu 18
Addoli 68
Almanac Undodaidd, Yr..... 36
Aroswch gael gweled 45
Afradlon, ei brofiad 152
Ateb i'r Atheist 188
Aberaeron, Ymweliad ag 202
Addysgu yr Ieuainc 225, 252
Angladd yr hen wr tylawd 277

Bwda, Y Proffwyd Hindwaidd 127
Bwrw y Draul..... 159
Beecher.....211, 234
Beibl, ei ddiwygiad 213
Beibl, ein rhwymedigaeth iddo 256

Cael Duw allan 53, 80
Cyfryngwr 44
Cyfarfodydd Chwarterol..56,121,181,245
Creadigaeth..... 68
Casabianca 87
Cyn bod y byd 108
Cyfiawnder, Trugaredd, a Ffydd .. 176
Calfaria Fryn.....186,212
Cwmglo 193
Channing 233
Capel newydd Caerdydd 255

Diafol 89
Duw yn y Beibl 73
Diwedd y Byd 19
Dyddanwch, Ffynnonell 11
Dyn 25,277
Da a drwg 77
Dim ond un Bai..... 145
Detholiadau o'r Beibl 164,189,238
Dammeg Paul..... 177
Davies, Caeronen, ei ddyddiadur 187,213
Dyffryn Aeron..... 188
Davies, Y Parch. W. E. 208,239

Eurgrawn Cymreig, Yr..... 91
Ebion o Iowa 102,133,153,182
Eglwys yr Holl Saint yn Chicago ..280
Emynyddiaeth 160
Etholiadau, Yr 184,191

Ffolineb Esau 43
Ffydd 9 42,53

Gladstone..... 20
Gough, yr Areithiwr 92
Gwaed Crist 20,42

Gweddillion Marwol 41
Grogbren, Y..... 88
Geiriau olaf Cristion 105
Gweddi..... 131
Gellionen 175

Hen Newyddiadur..... 229
Herber Evans..... 235

Jenkin Jones, Llwyn..... 40
Jacob 63,106
Jones, Chicago 139,141

Llenyddiaeth y Fynwent 57
Llythyr..... 62
Lluman..... 248

Manion a Hanesion 21
Marwgofion 23,47,71,95

Napoleon a'r Coedwr..... 38
Nadolig 19,39
Nefoedd ac Uffern..... 16
Newton a'i Ragredegwyr 1
Nodwydd, Myned trwy grau 93

Priodi 115,141
Priodasau..24,71,143,216,224,239,261,264
Presbyteriaid..... 33
Profedigaeth D. Price..... 30
Pwlpud, Y 59,82
Pryder.....157,181
Philip Pugh 187
Pregethau i'r Ieuainc....169,196,201,241, 265,271

Reesiaid y Gelligron 69
Rhyddid Eglwysig..... 179

Serfetus a Chalfin 139
Swedenborg..... 13

Trindodiaid, Gair atynt 17

Urim a Thummin (Pregeth) 119
Undodiaeth 67,110,114,261
Undodwr, Paham.....97,123,149
Undeb Gweinidogion 156,209
Undeb Cynnulleidfaol, Yr 214

Ysgolion Sul.....5,65,212
Y Lle Melusaf..... 5
Ymweliad â Sir Aberteifi..... 135
Ysgrifenwyr Mawrion 222
Y Wasg Gymreig 236

gweithio afiechyd ac iechyd yn y corff dynol. Yn awr, pa ddyn o synwyr cyffredin a all haeru pethau mor ddisail? A wyr y brawd, pan ymddengys afiechyd yn ei gorff ei hun, mai toriad deddf yw yr achos o hono, ac mai adgyweiriad o'r ddeddf doredig yw gwir effaith ei ddyfodiad yn ol i'w safle iechyddol? Felly, nis gall nefoedd ac uffern gael eu cyssylltu a'r *un*rhyw ddeddf sydd yn perthyn i'r sylw diweddaf o eiddo ein brawd. Wedi profi fod y possiblrwydd yn y dyn i adgyweirio y ddeddf doredig mewn perthynas i'w iechyd, pa fodd y gall uffern fod yn dragwyddol yn ei gyfansoddiad, os yw y ddeddf yn parhau i bob tragwyddoldeb? Mae y cyfrifoldeb yn sefyll yn union ar y Gwneuthurwr o hono, a thrwy hyny (fel y dywedwyd o'r blaen), yn cymmylu caracter yr un Mawr, o herwydd fod y ddeddf sydd yn ei gwneyd yn dragwyddol. Os yw uffern yn dragwyddol o herwydd fod y ddeddf yn dragwyddol, y mae yna gyn-fwriad ac appwyntiad gwreiddiol o eiddo yr un Mawr i'r gyfryw sefyllfa. Y mae yna orfodiaeth o du y Deddf-roddwr ar y cyfryw greadur anffortunus yn ei orfodi i'r gyfryw sefyllfa, a hyny am bob tragwyddoldeb. Yn awr, frawd, y mae yn ffaith anwadadwy fod cyfansoddiad dyn yn feddiannol ar ddwy elfen neu ddau allu—un i gyflawnu y ddeddf a'r llall i'w thori; ac ar y tir yna, y mae dyn yn fod cyfrifol gerbron ei Greawdwr doeth a da. Nid gorfodiaeth, ond rhydd-ewyllysiaeth, frawd. Ac fel y mae dyn yn dyfod i fyny â syniadau ei Wneuthurwr, y mae yn meithrin nefoedd a dedwyddwch yn ei weithrediadau, ac yn codi yn uwch uwch yn neddf Dadblygiad a chynnydd, fel y daw, yn y diwedd, yn ail i Dduw ei hun, ac fel y gall yr un Mawr edrych arno fel campwaith ei ddwylaw. "Pa beth yw dyn i ti i feddwl am dano?"

DAVID LEWIS,

Sef un o Ddysgyblion yr enwog Manning, Abertawe.

(I'w barhau.)

GAIR AT DRINDODIAID CYMRU.

IE, gair gan un sydd wedi bod yn Drindodwr am flynyddau, ac wedi bod yn athraw ffyddlon a gweithgar yn eich Ysgolion Sabbothol Trindodaidd—wedi fy ngeni a'm magu mewn cymmydogaeth nad oedd yn cynnwys yr un eglwys wrth-Drindodol, nac, ychwaith, neb unigolion o'r gyfryw ffydd yn byw yno. Yn fuan, wedi i mi ddechreu barnu a meddwl droswyf fy hun, teflais yr esponiadau ag oeddent mor unochrog o'r neilldu, a chymmerais y Beibl ar un llaw, a synwyr, pwyll, a chydwybod ar y llaw arall; a chan daflu pob rhagfarn ag oedd yn bossibl o fy modolaeth, dechreuais ar y gwaith mewn gwedd newydd o ddifrif ac o lwyrfryd calon.

Y pwnc cyntaf ddarfu i ni ei astudio oedd, Anfeidroldeb cariad, doethineb, a chyfiawnder y Duw Mawr mewn cyssylltiad â dyn. Wrth edrych ar hyn ar un llaw, ac edrych ar y syniadau poblogaidd yn yr eglwysi

a elwir Uniongred ar y llaw arall, mae yn ddigon i syfrdanu pob teimlad dynol wrth weled yr annghyssondeb annhraethol ag sydd yn cael ei ddysgu yn ddyddiol ac wythnosol i genedl hawddgar a thwymgalon Cymru. Pa ddyn rhydd ei farn a goleu ei amgyffrediad a all gredu yn yr hyn a elwir Pechod Gwreiddiol? Dyn, yn ei fabandod a'i ddiniweidrwydd, yn dyfod i'r byd mewn pechod, a'r pechod hwnw yn etifeddiaethol, a chyfrifoldeb ar yr etifedd am fod ei dad Adda wedi pechu chwech mil o flynyddau cyn ei ymddwyn yn y groth, a gosodiad Dwyfol i'w gospi â marwolaeth dragwyddol, i'r cyfryw anffortunus am ei fod heb ei eni mewn rhan neillduol o'r ddaear yma i gael clywed am Grist a'i waed a llawer o seremoniau ereill; neu, fel y dywed yr uchel Galfiniad, heb fod yn un o'r etholedigion ag oeddynt wedi eu hordeinio yn y Cynghor Boreu. Pa hyd, gyfeillion, y byddwch yn rhwymedig gan hen athrawiaethau o'r fath?—athrawiaethau sydd yn warth i egwyddorion syml a gwirioneddol yr Iesu, ac yn ddianrhydedd i hanfodion Awdwr Mawr crefydd. Pa fodd y gellir ei alw yn Dad, yr Hwn sydd yn y nefoedd? Pa fodd y gallai y Salmydd ddweyd, "Daionus yw yr Arglwydd i bawb, a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd?" Neu, pa fodd y gallai Moses ei alw "Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn?" A dweyd yn fyr, mae holl fyfyrdodau dyn am ei Grewr, o ddechreu Genesis hyd Amen y Datguddiad, yn cyduno i ddweyd mai "Duw, cariad yw." Nid oes genym yr un sail i gredu yn medolaeth Pechod Gwreiddiol o gwbl; fod dyn yn dyfod i'r byd yn bleutyn y fall, ac nid yn waith dwylaw ei Grewr. Pa fodd y gallai Duw, yn unol âi gyfiawnder, gospi y dyn am yr hyn nas gallai ei osgoi? a pha fodd y gall dyn fod yn gyfrifol am anufudd-dod un arall? Os bydd i ni fabwysiadu syniad uwch am Dduw, bydd yn rhaid i ni daflu y syniad israddol yma am Dduw ymaith o'n meddwl unwaith ac am byth, a dringo i awyrgylch iachus a goleuedig, a ffurfio barn addasach a chywirach am Achosydd Mawr pob daioni. Mae athrawiaethau o'r fath yma wedi creu mwy o Dduw-wadwyr nag y mae yr Eglwys Gristionogol erioed wedi freuddwydio. Am hyny, taflwn allan athrawiaeth y Cwymp yn Eden, a bydded i ni gredu mai ar ei gynnydd parhaus y mae y byd yn myned. Fel y dywedodd y Salmydd, filoedd o flynyddau ar ol y Cwymp tebygol yn Eden, "Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain; ei bobl Ef ydym, a defaid ei borfa;" ac os ei bobl Ef yr oeddym y pryd hwnw, yn sier i chwi, ei bobl Ef ydym yn awr; ac yn mlaen yr â ei bobl am berffeithrwydd, dan arweiniad y Datguddiad Dwyfol; ac y mae Duw yn datguddio yn barhaus i'r enaid dynol.

Abertawe. WILLIAM GRONOW.

(I'w barhau.)

AWR ANGEU.

Awr angeu! nid oes rhyngom—a hono
Haner feddyliasom;
Rhyw hwyr drwg yw yr awr drom
Wahana bawb o honom.—*Eben Fardd.*

NODYNAU GWASGAROG.

Y DDUWINIAETH BOBLOGAIDD.

Mewn llyfryn bychan a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archesgob Canterbury, dan yr enw *The Seven Gifts*, mae y paragraff hwn:—"Ychydig amser yn ol, mi fum mewn eglwys bwysig yn y Gogledd. Canwyd tri emyn ar ddeg. Yn y rhai hyn oll, nid oedd ond un pennill o un emyn yn cael ei gyflwyno i'r Tad. Iddo Ef y cyflwynwyd un rhan allan o dri ugain a deunaw o ganiadau ysprydol ei bobl. Yn y pennill hwnw, yr oedd yn cael ei anerch fel y Rhoddwr o wlith ac o gwsg gwlithog. Yr oedd pobpeth arall, oddieithr ychydig ganmoliaeth i'r eglwys, yn cael ei gyflwyno i'n Harglwydd [Iesu], a bron yn hollol i'w natur ddynol. Yn awr, pan yr ystyriom mai cenadwri ein Harglwydd oedd, yn ol ei ddesgrifiad ei hunan i gasglu gwir addolwyr at y Tad, rhaid ini addef, nad pa *allowance* neu esponiad a wnawn, fod swyddogaeth Ddwyfol y ddau Sul dan sylw yn ddiffygiol mewn cyfartaledd."

Y NADOLIG.

"Fe anwyd yr Iesu yn foreu iawn, rhwng pedwar a phump, ar ddydd Nadolig," ebe hen wr yn ddiweddar mor awdurdodol á phe buasai efe yno ar y pryd. Felly yr oedd yn bod, ond nid oedd yr hen wr yn rhoddi un rheswm dros ei gred. Mae yn syndod mor benderfynol y gall rhai fod mewn perthynas i bynciau crefyddol. Fel rheol, nid y rhai mwyaf gwybodus sydd yn barod i haeru fwyaf. Credaf fod Spurgeon yn gwybod llawn cymmaint ar y pwnc hwn á'r hen wr, ac yr wyf yn cofio darllen sylw o'i eiddo ef i'r perwyl yma, mai bron yr unig beth sicr mewn perthynas i amser genedigaeth Iesu Grist oedd, na ddarfu iddo gymmeryd lle yn amser y Nadolig. "Beth, ynte," ebe rhywun, "a ydych chwi ddim yn credu yn y Nadolig, neu, yn hytrach, yn yr iaith Saesneg, Don't you believe in Christ*mas*, then?" "No, I don't," ebe Spurgeon, "I don't believe in Christ*mas*, or any other mass." *Mass* yw y gair Saesneg am yr offeren Babaidd. Nid yw o fawr pwys pa bryd y ganwyd yr Iesu, y peth mawr yw ei fod wedi ei eni. Y mae bodolaeth dyn yn ddigon o sicrwydd ei fod wedi ei eni, os nad yw mewn perthynas i'r amser cywir. Tyb rhai yw mai yr amser mwyaf tebygol yw tua'r gwanwyn. Nid yn unig y mae dydd genedigaeth yr Iesu yn amheus, ond y mae'r flwyddyn hefyd. Tebyg yw ei fod wedi ei eni ryw bedair blynedd yn gynnarach na'r cyfrif cyffredin, ac y dylai y flwyddyn bresenol fod yn 1890 ac nid 1886. Nid yw yn debyg chwaith mai Bethlehem yw y lle y ganwyd yr Iesu ynddo.—Q. Q.

DIWEDD Y BYD.

Llawer o broffwydo sydd o bryd i bryd ar y pwnc hwn gan rai sy'n annghofio yr hen ddiareb sydd yn dywedyd nad yw o un dyben i ni broffwydo, os na fyddwn ni yn gwybod. Yn eich rhifyn diweddaf (tud. 278), rhoisoch awgrym ar y mater; ac feallai na fydd yr ychwanegiad a ganlyn ddim yn annerbyniol. Mae yn debyg fod y *Western*

Mail a'r *Guardian* wedi cyhoeddi, yn 1870, yr hen linellau proffwydoliaethol yma o eiddo Nostrodamus:—

Quand Guyes Dieu crucifera,
Que Marc le ressuscitera,
Et que Jean le portera,
La fin du monde arrivera.

Mae telerau y broffwydoliaeth yn cydgwrdd yn 1886, fel yr awgrymwyd yn eich rhifyn diweddaf. Mae y Pasc yn syrthio ar y 25ain o Ebrill, neu Wyl St. Marc, y Groglith ar Wyl St. George, a Gwyl y Corpus Christi ar Wyl Ioan Fedyddiwr! Felly, bydded eich darllenwyr ar y "look out;" ac os cant fyw, odid na chant allan fod y broffwydoliaeth hon mor ddisail ag ereill o'i blaen hi.—Q. Q.

GWAED CRIST.

Mae gweinidog Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, wedi ei gyhuddo, yn ddiweddar, o ddywedyd nad oedd dim mwy o rinwedd yn ngwaed Crist nag sydd mewn gwaed ceiliog. Hen gyhuddiad yn erbyn yr Undodiaid ydyw hwn, ond o'r braidd yr wyf yn credu ei fod erioed wedi bod yn wir. Nad beth ydyw syniad Undodiaid am gyssylltiad gwaed Crist ag iachawdwriaeth dyn, nid Undodiaid sydd yn gwneuthur defnydd o'r ymadrodd uchod. Cyhuddiad disail Trindodiaid ydyw. Os nad yw Undodiaid yn canu

Fod dafn bach o waed
Yn drymach yn y nef
Na'r pechod mwya' gaed,

maent yn credu yn gryf iawn mewn geirwiredd. Nid yw yn rhan o'u cred fod dywedyd anwireddau am enwadau ereill yn help i iachawdwriaeth neb, ac nid ydynt yn credu y cymmer yr Arglwydd yn ddiesgus yr hwn sydd yn gwneuthur cam ag arall trwy ddywedyd anwiredd am dano. Mae yr hen eiriau hyny, "Na ddwg gamdystiolaeth," "Dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog," yn y Beibl a ddarllenir gan yr Undodwr, ac hwy ddylent fod yn Meibl y Trindodiaid, os nad oes gan y dosparth yma o honynt Feibl *special* iddynt eu hunain, a gwahanol i'r un cyffredin.—Y Gweinidog.

GLADSTONE A HUXLEY.

Mae Mr. Gladstone yn ddiweddar wedi bod yn traethu ei len ar lyfr Genesis, yn ngwirionedd llythyrenol yr hwn y mae'n llwyr gredu. Nid oedd yn bossibl fod y darlun o'r cread yr hyn yw, yn ddarlun cywir o ffeithiau ydynt yn gysson, medd efe, ag addysg gwyddoniaeth ddiweddar, oni buasai fod yr awdwr yn ysgrifenu dan olcuni dwyfol ys-

prydoliaeth. Mae yn debyg fod Mr. G. yn cymmeryd ei wyddoniaeth oddiwrth Cuvier, yr hwn oedd yn byw yn y ganrif ddiweddaf, ac oddiwrth Dr. Kinns, yr hwn sydd yn gwybod mwy feallai am ysgrifenu pregethau nag a wyr am ddaeareg. O leiaf, fe ddywed Prof. Huxley, yr hwn yw un o naturiaethwyr mwyaf y 19eg canrif, yn ei ateb i Mr. G. nad yw addysg Genesis yn nghylch trefn y cread ddim yr un peth ag ydyw addysg athroniaeth ddiweddar. Os yw efe (Mr. H.) yn deall daeareg, fod addysg daeareg yn groes i'r hyn ydyw addysg Genesis. Mae genym y parch mwyaf i Mr. G. fel dyn galluog a chydwybodol, ond ar bwnc fel yma mae Huxley yn rhwym o fod yn fwy o awdurdod nag efe. Mae mwy nâ thriugain mlynedd bellach oddiar y dywedodd Belsham mai gwaith ofer oedd ceisio cyssoni Genesis â Gwyddor; ond o hyd ac o hyd gwneir ymgais yn y cyfeiriad yma, gan annghofio nad yw y Beibl erioed wedi ei fwriadu i ddysgu *science*. I ba ddyben y cymmerwn ein *science* o'r Beibl? Meddai y *Jewish Chronicle*, "The Bible was never meant to be a scientific text book any more than a political *vade mecum*." Credwn fod gwerth penaf y Beibl i ni yn ei help i ddeall a sylweddoli crefydd a moesoldeb, ac nid yw hanes y cread yn dal dim cyssylltiad ar a welwn ni â'n cymmeriadau fel bodau moesol. Trueni fod Mr. G. yn rhoi help ei enw mawr a pharchus i ategu damcaniaethau disail Dr. Kinns. Nid yw gwerth y Beibl i neb yn dybynu ar wirionedd ei Ddaeareg nâ'i Seryddiaeth, ond ar yr ysprydoliaeth a ddichon gynnyrchu ynom ni tuag at fywyd o weithgarwch Cristionogol yn y byd. Cyfeiria Huxley, fel at rhywbeth sydd ar sail mwy disygl nâ gwyddoniaeth Genesis, at yr hen eiriau bendigedig, y rhai ydynt fflach o ysprydoliaeth tragywyddol, a gyffyrddant â'r galon yn union, geiriau na fydd i brofiad a chynnydd gwybodaeth byth eu hanfon allan o ffasiwn na lleihau eu gwerth: Dangosodd ef it', ddyn, beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw. Mae Mr. Gladstone yn fwy o awdurdod ar bwnc o Wleidiadaeth nag yw ar bwnc o Biblical Exegesis.

Manion a Hanesion.

Ni ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau er mwyn ein gwneuthur yn seryddwyr, ond ein gwneuthur yn seintiau.—*M. Henry.*

Mae annghymmedrolder yn pylu'r llygaid, yn dinystrio prydferthwch y wynebpryd, yn marweiddio teimladrwydd yr enaid. Gochelwch ef.

Yr oeddwn I'n eistedd gyda General Grant ac ereill, pan y daeth swyddog uchel o'r fyddin i fewn, yn gwaeddi, "O! fechgyn, mae geny' yma stori fach bert i adrodd i chwi. Nid oes yma ddim boneddigesau yn bresenol, 'rwy'n coelio!" "Nac oes, ond y mae yma foneddigion," oedd ateb byr Grant. Ni adroddwyd y stori.—*General Clinton.*

Darfu i'r Iwerddon, dlawd a gormesedig fel y dywed ei bod, yn ystod y flwyddyn ddiweddaf ddifa 5,069,028 o alwyni o wirodydd, ac yn agos 79,000,000 o ddiod frag, y rhai a gostiodd iddi yn agos un filiwn ar ddeg o bunnau (£11,000,000).

BRADFORD.—Mae y Parch. E. Ceredig Jones, A.C., yr hwn yw y gweinidog Undodaidd yn y lle hwn, wedi bod yn traddodi darlithiau yma yn ddiweddar, un ar "Charles Darwin," y naturiaethwr enwog, a'r llall ar "Arferion, Defodau, a Nodweddion neillduol y Cymry." Rhoddir crynodeb byr o'r darlithiau yn un o'r papyrau dyddiol lleol, a da genym ddeall fod y darlithydd wedi rhoddi boddlonrwydd neillduol i'r gwyddfodolion. Credwn fod Mr. Jones yn debyg o wneuthur yr hyn y carem i'r Cymro bob amser geisio gwneuthur, sef creu dyddordeb yn mhlith y Saeson tuag at ein Iaith, ein Gwlad, ein Cenedl. Y mae yn dost meddwl nad yw Dic-Sion-Dafyddiaeth ddim etto wedi marw, ac nad oes amgen gwaith gan rai Cymry pan elont oddicartref nâ "diwyno'r nyth yn yr hon eu magwyd"

DOWLAIS.—Cymmerodd Gwyl De flynyddol cynnulleidfa Dowlais le ar y 26ain o Dachwedd. Er i'r hîn droi allan yn hynod anffatriol nes analluogi pobl o bellder i ddyfod, cawsom gynnulliad gweddol dda. Addurnwyd yr ystafell yn ddestlus gan y Misses Lewis a Miss Evans. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol:—Mrs. Harvey, Mrs. a Miss M. Lewis, White St.; Mrs. a Miss Evans, Overton St.; Mrs. Lewis, Tunnel Terrace; Mrs. Williams, The Cottage; Mrs. Evans, Penydarren; Mrs. Davies, White St.; Mrs. Davies, Mary Ann St.; Misses Lewis a Davies, a Mrs. Thomas, Spring St. Yn yr hwyr cafwyd gwledd i'r meddwl. Cadeirydd, T. P. Harvey, Ysw. Canwyd yn ardderchog unawdau, deuawdau, &c., gan Miss Jones, Market St.; Mri. Evans, Rogers, Reece, Fisher Jones, Tasker, Llewelyn, Rees, a'r Parch. W. J. Davies. Adroddodd Swithin Jones yn ei hwyliau goreu dau ddarn (un o ba rai a gyfansoddwyd gyferbyn â'r cyfarfod presenol). Chwareuodd Master H. M. Lloyd yn fedrus ar y berdoneg; a chanodd Parti y Capel glees yn neillduol dda yn ol tystiolaeth Mr. Harvey (yr hwn sydd yn gerddor gwych). Y cyfaill ieuanc T. Evans oedd yr arweinydd. Yr oedd y cyfarfod hwn mor llwyddiannus fel y dymunwyd am gael cyfarfodydd llenyddol o'r fath yn ystod y misoedd nesaf. Cynnelir hwynt yn fisol, y cyntaf Rhagfyr yr 17eg.

"Nyth Pobl Dduwiol" yw enw sect newydd o grefyddwyr yn Rwssia.

LIVERPOOL.—Yr ydym wedi gweled *programme* diweddaf gweithrediadau y "Liverpool Domestic Mission," lle mae y Parch. T. Lloyd Jones yn cyflawnu swydd *Missionary*, ac yr ydym yn edmygu yn fawr yr ymgais sydd yn cael ei wneuthur i lanhau ychydig ar lwybrau rhai o ddosparthiadau iselaf cymdeithas yn y lle yma. Mawr lwyddiant i'r gwaith da. Ychydig allwn ni ei ddychymygu am sefyllfa resynus miloedd yn y trefi mawrion.

DAU ST. IOAN.—Dywedir fod y Pab ar fedr canoneiddio, hyny yw, gwneuthur sant o John Fisher, Esgob Rochester, yn amser Harri VIII. Ar hyn y mae rhywun wedi sylwi fel yma:—"Bydd wedi'n ddau St. Ioan (dau ferthyr), ac wedi eu gwneuthur yn seintiau am resymau gwahanol iawn—St. Ioan Fedyddiwr am ddywedyd wrth ei frenin, "Nid yw gyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd;" St. Ioan Fisher am ddywedyd wrth ei frenin, "Y mae yn gyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd."

Po fwyaf o ddillad wisgo dyn, mwyaf i gyd o ddillad gwely raid iddo gael; po fwyaf geidw yn ei ystafell ar dywydd gwresog neu oer, mwyaf i gyd y bydd iddo gyfyngu ei hunan i'w dŷ; po fwyaf lluosog a gwresog y byddo ei wisgoedd nos, parotaf i gyd y bydd iddo gymmeryd anwyd; ac o dan bob amgylchiadau, yn debyg i'r plentyn di-sifft—po fwyaf helpir ar hwnw, lleiaf i gyd o allu sydd ynddo i helpu ei hunan.

Clywais ddadwrdd, clywais ddwndro,
Clywais ran o'r byd yn beio;
Erioed ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau 'i hunan.

Pan f'o seren yn rhagori,
Fe fydd pawb â'i olwg arni;
Pan ddaw unwaith gwmmwl drosti,
Ni fydd mwy o son am dani.

Mae can amled yn y farchnad
Groen yr oen â chroen y ddafad,
A chan amled yn y Llan
Gladdu'r ferch â chladdu'r fam.

BEDDARGRAFF
Yn Gunwallow, ger Helstone.

Shall	we	all	Die
We	shall	Die	all
All	Die	shall	we
Die	all	we	shall

Mae yn ddyfyrus weithiau i weled y modd mae y papyrau yn trin eu gilydd. Deallwn fod "Best Words" yn ofni nad yw "Unity," papyr y Parch. J. Lloyd Jones, ddim yn hollol iach yn y ffydd Undodaidd. Gesyd hyny Jenkin ar flaenau ei draed nes ei orfodi i ymffrostio fod y "genuine blue blood" Undodaidd yn rhedeg yn ei wythienau. Gwrandewch arno: "Feallai y gwyddant yn well nag y gwyddom ni ein hunain, ond bydded i'r rhai hyny ydynt yn foddlawn cymeryd ein gair ni ar y mater, cystal a'n hystyried yn Undodwr, trwy hawl etifeddiaeth, trwy ddewisiad ystyriol, trwy ddeddf perthynas ysprydol, a thrwy y penderfyniad i fyw, ac, os byddai angen, i farw er anrhydedd, eangder, a dadblygiad y *mudiad* Undodaidd."

Oni chawn ni gyda dechreu blwyddyn newydd wneuthur addunedau newyddion, i fod yn fwy ffyddlawn ac yn fwy ymdrechgar gyda phob gwaith da, i wasgar goleuni a chyssur a chynnorthwy ar bob llaw? Wele ddigon o waith. Ymaflwn ynddo, cyflawnwn ein rhan, fel y teilyngom y gymmeradwyaeth a'r gwahoddiad, Da was da a ffyddlon, &c.

Nid oes eisieu i ni osod llawenydd yn ein crefydd, mae pob gwir grefydd yn llawen; ond y mae eisieu i ni osod crefydd yn ein llawenydd, rhag iddi ddiraddio i ysgafnder a gwegi. Ni fynem osod tristwch yn ein crefydd; ond O, y mae arnom angen crefydd yn ein tristwch. Ni fynem ddiraddio ein crefydd i'w gwneuthur yn grefft, ond carem wneuthur ein crefft yn ardderchog trwy ei hysprydoli a'n crefydd. Nid rhywbeth y tuallan i ni yw ein crefydd, i'w gymmeryd i fyny, neu ei adael o'r neilldu fel y mynwn;—ond rhywbeth o'n mewn yw—rhan o honom ein hunain, ac yr ydym yn atebol am dano, pa un a fynom ai peidio. Ein dyledswydd gan hyny yw nid i *broffesu* crefydd, yn gymmaint ag i fod yn grefyddol.—*Unity.*

Pan fyddo'r teimlad o'r presenoldeb Dwyfol yn gymmesurol â meddyldrychau'r meddwl, a phan bydd crefydd yn cyssegru pob gair a gweithred o'n bywydau, ni fydd caniadau Seion bellach yn cael eu canu mewn gwlad ddyeithr.—*Swedenborg.*

Dywedir na fu arian erioed mor rhad ag yw yn awr. Gellir ei fenthyca am lai nag y mae neb erioed yn cofio.

Mae masnach yn isel iawn yn ardal gweithfaoedd Morganwg er ys llawer dydd, ac y mae lle i ofni y gwelir tlodi gan lawer yn ystod y gauaf nesaf.

Pe gofalai yr etholwyr anfon dynion yn caru heddwch i'r Senedd, byddai llawer mwy o obaith am amser da wedi'n. Nid oes dim yn dwyn cymmaint o ddinystr ar gyfoeth gwlad â'r cariad at ryfel.

Y DDEILEN.

Y wir ddilys werdd ddeilen—hoew foddus
Haf addurn y goeden;
Yn lli' drwy bob gwythien,
Fe wthia'r prif faeth i'r pren.

J. E.

Yn mhlith y 79 a gollodd eu bywydau trwy y ffrwydriad ofnadwy yn y Mardy, Rhagfyr 23ain, oedd y Parch. John Evans, pregethwr cynnorthwyol gyda'r Bedyddwyr. Yr oedd yn ddyn parchus iawn gyda'i holl gydnabod, ac yr oedd y rhai hyny yn lluosog. Pregethodd un Sul yn ddiweddar yn H.D.C., Aberdar, yn absenoldeb y gweinidog, gan roddi boddlonrwydd cyffredinol. Credwn ei fod yn wyr, neu berthynas agos, i'r diweddar Barch. Arthur Williams, Llanbedr. Yr oedd yn swyddog tanddaearol (fireman) yn y Mardy.

Cynnaliodd Caeronen ei Gwyl De flynyddol etto yn Wern College, ar yr 16eg o Ragfyr, a Brondeifi ar yr 17eg o'r un mis. Yr oedd Ysgol Newydd Brondeifi a'r Ty Capel a'r Ystabl newydd gael eu gorphen erbyn yr amgylchiad. Y mae golwg hardd arnynt, a gobeithio y bydd iddynt fod o wasanaeth mawr i'r gynnulleidfa am oesau i ddod. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfodydd llenyddol ardderchog yn Brondeifi a Chaeronen. Diolch i bawb a fu â llaw yn y gwaith.

NATUR DDA.

Ni fu ddawn, ddyn feddianna—enaid,
Yn iawn-wych ddych'myga,
Nac a gred y lles reda
I ni, trwy ddoeth natur dda.

Afonig serch yw, o fynwes—heddwch,
Lân, hyddoeth, ddirodres;
Tardda, a llifa, i'n lles,
O ganol Gwynfa gynhes.

CYNONWYSON.

Yr ydym yn byw mewn oes o ddarganfyddiadau. Mae y Parch. W. Warren, Llywydd Prif Ysgol Boston, wedi ysgrifenu llyfr i brofi fod Gardd Eden yn y Pegwn Gogleddol *(North Pole)*!

PRIODASAU.

Rhagfyr 1, yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, gan y gweinidog, Charles Searle a Mercy Stucky, y ddau o Ferthyr.

Rhagfyr 9, yn Cwmbach, Aberdar, gan y Parch. E. W. Lloyd, David, mab hynaf Mr. Evan Thomas, Morgan Row, o'r lle hwn, â Miss Anne Jones, Llwydcoed.

Marwgofion.

Tachwedd yr 20fed, yn 67 mlwydd oed, Mrs. Anne Davies, Gilfachweddog, gweddw y diweddar Peter Davies, gynt o Lloydjack, plwyf Ystrad. Yr oedd yn wraig dawel a hawddgar a berchid gan bawb drwy y gymmydogaeth. Bu yn aelod rheolaidd o eglwys Tynygwndwn am lawer o flynyddoedd, lle teimlir colled ar ei hol. Gadawodd fab a dwy ferch mewn galar a hiraeth mawr am un fu dyner a gofalus iawn am danynt hyd y gallodd. Er eu bod wedi eu gadael yn amddifaid, bydded iddynt gael nerth i ddal yn ngwyneb y brofedigaeth sydd iddynt mor chwerw, yn ffyddlog fod Tad yr amddifaid yn fyw. Yn y ty, ar ddydd yr angladd, darllenodd a gweddiodd y Parch. — Davies, Tynygwndwn, a phregethodd y Parch. B. Phillips, diweddar weinidog Tynygwndwn. Cyn cychwyn o'r ty, gweddiodd y Parch. T. Thomas, Llanfair, a chladdwyd yn mynwent Ystrad.

Tachwedd y 24ain, yn 79 mlwydd oed, Stephen Davies, Kennel, Ystrad, yn dra sydyn. Yr oedd yn myned i orphwys yn ei iechyd arferol, yr hyn nid oedd yn dda. Yn y boreu, ymadawodd â'r byd a'i holl flinderau. Yr oedd yn hen wr diniwed, diwyd yn ei waith, a gweithiodd yn galed trwy ei oes i gadw ei deulu. Bu am flynyddau yn aelod yn Rhydygwin. Gadawodd weddw oedranus ar ol mewn unigrwydd i dreulio gweddill ei hoes, a dwy ferch wedi eu hamddifadu o dad anwyl iddynt. Gobaith a chyssuron yr Efengyl fyddo yn nerth ac yn ddyddanwch iddynt yn eu hamddifadrwydd. Ar ddydd ei angladd, gweinyddwyd yn y ty gan W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd ef yn mynwent y plwyf.

Tachwedd y 27ain, yn 68 mlwydd oed, Margaret, gwraig Evan Evans, Moelhadog Isaf, Llandyssul. Bu yn dihoeni yn hir, ond dangosodd ei hun yn esiampl o amynedd ac ymostyngiad yn ei chystudd. Perthynai i un o hen deuluoedd parchus yr ardal, ac yr oedd yn un o aelodau hynaf Llwynrhydowen. Heblaw rhinweddau ereill, yr oedd yn nodedig am ei charedigrwydd a'i natur dda, ac yr oedd iddi le uchel yn mharch ei chymmydogion. Ond ei lle uid edwyn ddim o honi mwy. Claddwyd yn mynwent newydd y Llwyn, y dydd Mawrth canlynol, a phregethwyd gan y gweinidog.

Tachwedd y 30ain, yn 76 oed, Thomas Davies, Ffynonlâs, Llanarth. Syrthiodd, ar ol hir nychdod, fel y cyfyd ysgafn o yd yn ei amser. Hen wr dystaw, tawel, addfwyn, a gair da iddo gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Nawdd y Tad Nefol fyddo gyda'i weddw yn ei hunigedd. Claddwyd y dydd Iau canlynol, yn nghapel Fadfa, lle y pregethwyd gan y Parch. W. James.

Rhagfyr 1af, yn 6 oed, William, mab John a'r diweddar Frances Davies, Sychdy, ger Llandyssul. Bu farw yn dra disymwth o dan gronglwyd garedig ei dadcu a'i famgu yn Rhydcoedyfoel. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. Thos. Thomas.

Rhagfyr 11eg, yn 39 oed, Mary Williams, Tredegar. Bu farw yn nhy ei thad yn Talgareg, Llandyssul, lle yr oedd wedi dyfod ar ymweliad er mwyn ei hiechyd. "Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn, ond cynghor yr Arglwydd hwnw a saif." Claddwyd y Llun canlynol yn Capel y Fadfa, a phregethwyd gan y Parch. T. P. Phillips, Horeb.

Rhagfyr 23ain, yn nhy ei mab, Caddick Row, Blaina, Elizabeth, gweddw Griffith Lewis. gynt o Abernant, Aberdar, yn 85 oed. Claddwyd yn Nghladdfa Gyffredinol Aberdar ar yr 28ain. Gweinidog yr H. D.C. yn gwasanaethu.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.